PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 3 HYDREF 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Patel(Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Philippa Hill-John, Owen Jones, Caerhirfryn, Lay, Mackie, Owen, Wong a/ac Wood |

10 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDENB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

11 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Mackie | Eitem 4 | Personol |

12 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Medi 2017 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

13 : RHEOLI HYLENDID BWYD YNG NGHAERDYDD

*Roedd y Cynghorydd Mackie wedi datgan buddiannau personol yn yr eitem ganlynol dan God Ymddygiad yr Aelodau, fel aelod penodedig yr Awdurdod o Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd.*

Daeth adroddiad i law'r Pwyllgor ynghylch yr agwedd ag ymgymerwyd â hi gan y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar hylendid bwyd yng Nghaerdydd. Ceisiodd yr adroddiad bwysleisio'r rôl, y cyfrifoldebau a'r heriau; y nodau a'r amcanion; targedau cyflawniad a'r adnoddau sydd ar gael i'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) ar gyfer rheoli hylendid bwyd yng Nghaerdydd.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y GRhR, gwasanaeth ar y cyd rhwng Cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg, wedi cael ei sefydlu ym mis Mai 2015. Mae'r GRhR yn cynnal swyddogaethau Safonau Masnach, Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu dan un strwythur rheoli. Mae dyletswydd ar yr awdurdod i orfodi Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 ac amrywiaeth o ddeddfwriaethau sy'n ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid, ac fel rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd, rhaid i'r awdurdod lunio Cynllun Bwyd Anifeiliaid a Bwyd sy'n nodi'r trefniadau sydd ar waith i gyflawni ei ddyletswyddau. Atodwyd Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir – Cynllun Gwasanaeth Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a Bwyd (Drafft) at Atodiad A i'r adroddiad.

Mae'r GRhR yn gyfrifol am ddiogelwch ac ansawdd y gadwyn fwyd, ac mae wedi ymrwymo i sicrhau hynny. I gyflawni hyn, mae'r gwasanaeth wedi mabwysiadau 12 nod ac amcan y manylir arnynt yn yr adroddiad. Mae'r GRhR hefyd yn gosod blaenoriaethau corfforaethol y tri Chyngor wrth wraidd eu gweithrediadau. Wrth

ddatblygu eu blaenoriaethau strategol, mae’r GRhR wedi ystyried blaenoriaethau pob un o’r tri Chyngor ac anghenion a dyheadau eu partneriaid a’u cwsmeriaid. Nodwyd manylion ynghylch y tair blaenoriaeth strategol yn yr adroddiad hefyd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod 5,928 o leoedd bwyd o fewn ardal y GRhR: 1,294 ym Mhen-y-bont ar Ogwr; 3,325 yng Nghaerdydd; ac 1,309 ym Mro Morgannwg. Darparwyd proffil o’r lleoedd bwyd yn Atodiad A i’r adroddiad. Mae’n gyfrifoldeb y GRhG i fonitro'r lleoedd bwyd hyn i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau hylendid bwyd gofynnol.

Mae penderfyniadau ynghylch camau gorfodi, a phenderfyniadau i erlyn yn benodol, yn arwain at oblygiadau difrifol i bawb sydd ynghlwm ac mae'r GRhG wedi mabwysiadu Polisi Cydymffurfio a Gorfodi. Mae’r Polisi yn nodi’r safonau y bydd y Gwasanaeth yn eu gweithredu wrth ymdrin â materion o ddiffyg cydymffurfio, a’r hyn y gall trigolion, cwsmeriaid a busnesau ei ddisgwyl. Nod y Polisi yw hyrwyddo ymagweddau effeithiol ac effeithlon ar archwilio a gorfodi, a chydbwyso’r angen i wella wrth leihau’r beichiau diangen ar fusnesau cymaint â phosibl.

Mae’r Polisi’n sicrhau bod busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid yn derbyn ymyriadau, er enghraifft, archwiliadau yn unol â chodau ymarfer a chanllawiau ymarfer. Mae gan yr awdurdod lleol raglen o ymyriadau wedi’i chynllunio yn seiliedig ar ofynion Codau Ymarfer a Chanllawiau Ymarfer y Gyfraith Bwyd a'r Gyfraith Bwyd Anifeiliaid. Yn dilyn archwiliad gan swyddogion, caiff safleoedd eu categoreiddio rhwng A (risg uchel) ac E (risg isaf). Cynllunnir ymyriadau yn unol â raddfa’r risg. Rhoddodd yr adroddiad fanylion pellach i’r Pwyllgor ynghylch yr ymyriadau priodol ar gyfer categorïau A i E lleoliadau bwyd.

Bydd busnesau newydd, neu safleoedd nad ydynt wedi cael eu graddio, yn cael eu harchwilio’n llawn. Bydd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal o fewn 28 diwrnod ar ôl i’r safle agor. Rhoddwyd gwybod i’r Aelodau bod trosiant uchel o fusnesau yng Nghaerdydd ac mae hyn yn cynnig her ychwanegol i'r gwasanaeth. Yn 2016/17, nodwyd 416 o fusnesau newydd yng Nghaerdydd - o gymharu â 194 ym Mhen-y-bont a 140 ym Mro Morgannwg.

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi crynodeb o’r prif ddangosyddion perfformiad ar gyfer hylendid bwyd.

Yn ôl Deddf Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 rhaid i'r holl fusnesau bwyd perthnasol arddangos sticer o’u statws hylendid bwyd mewn man amlwg er mwyn i’r cwsmeriaid allu weld y sgôr hylendid bwyd a gafwyd yn glir. Mae’r cynllun wedi bod yn llwyddiannus yng Nghymru o ran cynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus o hylendid bwyd yng Nghymru, ac mae hyn, yn ei dro, wedi gwella safonau diogelwch bwyd. Rhoddodd Atodiad 2 i’r adroddiad ddadansoddiad i’r Pwyllgor o’r sgorau safonau hylendid bwyd ar gyfer sefydliadau bwyd yn y ddinas.

Ar ben hynny, ers mis Tachwedd 2016, gofynnwyd i safleoedd sy'n darparu cludfwyd yng Nghymru gynnwys datganiad dwyieithog ar daflenni yn egluro i gwsmeriaid ble y gallant ddod o hyd i fanylion ynghylch y raddfa hylendid bwyd ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod angen gorfodaeth ychwanegol ar gyfer y gofynion ychwanegol hyn, yn ogystal â gorfodaeth mewn perthynas ag arddangos sticer statws hylendid bwyd.

Amcangyfrif o gyllideb gyffredinol y GRhR ar gyfer diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yw £3,520,442. Dyrennir £1,968,050 net i Gaerdydd, sy'n cynnwys £1,748,639 ar gyfer staffio, £25,507 ar gyfer teithio/cynhaliaeth, £44,231 ar gyfer samplu a £139,673 ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau. Mae 34.09 swyddi cyfwerth ag amser llawn sy'n ymdrin â materion hylendid bwyd yn y GRhG; ac mae 19.45 ohonynt wedi'u dosrannu i Gaerdydd.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Michael Michael, yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd; Dave Holland, Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol; a Christina Hill, Rheolwr Gweithredol, Diogelwch Bwyd; i'r cyfarfod. Gwahoddwyd y Cynghorydd Michael i roi datganiad byr.

Dywedodd y Cynghorydd Michael fod y gwasanaeth wedi bod yn araf i ddatblygu er y cafodd ei sefydlu 3 mlynedd yn ôl. Mae'r GRhG yn perfformio'n dda ac mae'r adroddiad o flaen y Pwyllgor yn adlewyrchu hyn. Roedd hylendid bwyd yn gyfrifoldeb pwysig ar gyfer y gwasanaeth.

Rhoddodd Christine Hill gyflwyniad llafar i'r Pwyllgor ynghylch Cynllun Gwasanaeth Cyfraith Bwyd a Chyfraith Bwyd Anifeiliaid 2017/18. Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau, ceisio eglurhad neu godi unrhyw gwestiynau am y wybodaeth a ddaeth i law. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Cadarnhaodd swyddogion fod 100% o safleoedd Categori A a Chategori B wedi cael eu harchwilio yn ystod y flwyddyn, ynghyd â 90% o safleoedd Categori C. Mae gan y gwasanaeth Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sydd â'r amcan o archwilio pob busnes newydd o fewn 28 diwrnod ar ôl i'r busnes agor. Mae 90% o fusnesau newydd yn cael eu harchwilio o fewn y cyfnod hwn ac mae'r busnesau nad ydynt yn cael eu harchwilio gan amlaf ddim yn gweithredu nac yn barod ar gyfer archwiliad. Blaenoriaethir safleoedd risg uchel ar bob adeg.

- Gofynnodd Aelodau a yw'n bosibl cyflawni nodau ac amcanion y gwasanaethau â'r adnoddau sydd ar gael. Dywedodd swyddogion fod y gwasanaeth yn cael ei arwain gan dargedau, a rhagwelir y byddai'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael eu cyflawni. Gall y GRhR alw ar adnoddau ychwanegol gan Ben-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg pan fo'r angen yn codi. Mae arferion gwaith wedi newid ac mae staff wedi mabwysiadu gweithio'n ystwyth. Er enghraifft, nid yw staff yn gweithio o swyddfa mwyach. Mae'r Cynllun Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn nodi'r hyn sy'n bosibl â'r gyllideb sydd ar gael.

- Gofynnwyd i aelodau a allai incwm o sesiynau rhoi cyngor/hyfforddiant gael ei ddefnyddio i ddarparu staff ychwanegol. Dywedodd swyddogion fod yr incwm o roi cyngor i fusnesau bwyd yn annigonol ar gyfer darparu staff ychwanegol. Mae lefel y ffi wedi'i gosod yn genedlaethol yn unol ag awdurdodau eraill.

- Nododd aelodau fod 94% o fusnesau'n cydymffurfio. Gofynnwyd i'r swyddogion a nodwyd unrhyw dueddiadau ymysg y 6% o fusnesau a oedd yn methu, ac a oedd cynllun gweithredu wedi cael ei roi ar waith i ymdrin â'r methiannau hyn. Ystyriodd swyddogion nad oedd modd cymharu'n uniongyrchol oherwydd ystod y mathau o safleoedd a bwydydd yng Nghaerdydd.

- Gofynnodd Aelodau a oedd y GRhR wedi ystyried cynnig eu gwasanaethau i awdurdodau lleol eraill. Dywedodd swyddogion fod y GRhR yn ehangu eu

hymweliadau rhoi cyngor y codir tâl amdanynt, a bod y nifer yn cynyddu. Y GRhR yw'r prif awdurdod hefyd ar gyfer busnesau â safleoedd mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol. Awgrymodd Aelodau'r Cabinet fod rhai datganiadau o ddiddordeb wedi dod i law gan awdurdodau lleol eraill, ond ystyriodd y dylid rhoi cyfle i'r GRhG setlo cyn ystyried camau o'r fath.

- Dywedodd swyddogion fod hylendid bwyd yn Ne Cymru yn wael o gymharu â Gogledd a Gorllewin Cymru. Mae Safonau Hylendid Bwyd yn ymddwyn fel sbardun cystadleuol ac mae hyn yn gwella safonau.

- Dywedodd Aelod nifer y cwynion gan aelodau'r cyhoedd am fusnesau bwyd yn methu ag arddangos eu sgôr hylendid bwyd mewn mannau amlwg wedi cynyddu. Gofynnodd Aelodau pa mor rhagweithiol oedd yr awdurdod o ran gorfodi'r gofyniad hwn. Cadarnhaodd swyddogion fod cwynion yn eu cyrraedd gan y cyhoedd a bod y gwasanaeth yn gorfodi'r gofynion yn rhagweithiol. Cyflwynir Hysbysiad Cosb Benodedig i fusnesau nad ydynt yn arddangos eu sgôr. Y peth cyntaf y mae archwilwyr yn chwilio amdano yn ystod eu hymweliadau yw'r sgôr yn cael ei harddangos, a bydd swyddogion yn talu sylw arbennig i hyn.

- Cyfeiriodd Aelod at bryderon a godwyd mewn rhaglen deledu yn ddiweddar, a oedd yn cynnwys staff o'r GRhG, nad oedd busnesau bwyd yn arddangos eu sgôr hylendid gywir a'u bod yn rhoi gwybodaeth anghywir am eu sgôr hylendid dros y ffôn. Gofynnodd yr Aelod a allai'r cyhoedd gael ffydd yn y system sgôr hylendid bwyd. Dywedodd swyddogion fod y rhaglen deledu wedi helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Roedd y swyddogion wedi'u siomi gan y busnesau y tynnwyd sylw atynt yn methu ag arddangos eu sgorau cywir, a bod camau gweithredu dilynol wedi cael eu cynllunio. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod modd dod o hyd i'r sgorau hylendid ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Gellir gwneud mwy i gyfeirio aelodau'r cyhoedd at y wybodaeth hon.

- Gofynnodd Aelodau a oedd y canlyniadau graddio hylendid bwyd yn gwella'n gyffredinol ers iddynt gael eu cyflwyno yn 2013. Cyfeiriodd swyddogion at y graff ar dudalen 75 yr adroddiad a oedd yn dangos bod graddau hylendid bwyd wedi gwella'n gyson ers 2013.

- Gofynnodd Aelodau a oedd posibilrwydd o archwilio'r safleoedd cyn iddynt agor neu o wneud cynnal ymweliadau ymghynghorol cyn agor yn ofynnol, o ystyried y trosiant uchel o fusnesau bwyd yn y ddinas. Ystyriodd swyddogion y byddai archwilio safleoedd cyn iddynt agor yn cael effaith ar adnoddau ac ni fyddai modd ymweld â busnesau sydd eisoes yn masnachu o ganlyniad.

- Dywedodd Aelodau'r Cabinet y dylid rhoi gwybod i swyddogion y GRhR yn gynnar am achosion o fusnesau'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio i newid defnydd y safle i werthu bwyd er mwyn galluogi'r GRhR gychwyn ar eu prosesau. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r nod o weithredu dull cydweithredol rhwng y gwasanaethau.

- Gofynnodd Aelodau pa mor aml y mae busnesau sy'n cael sgôr o 0 ac 1 yn cael ymweliadau ar hap a hefyd, beth yw'r rhesymau mwyaf cyffredin dros y methiannau. Dywedodd swyddogion fod amserlenni penodol ar gyfer yr ail-ymweliadau, yn dibynnu ar y sgôr a gafwyd. Mae sgôr o 0 yn golygu arferion gwael a bydd archwilwyr yn penderfynu naill ai cynnal ymweliad arall neu gau'r

safle. Y rhesymau mwyaf cyffredin dros fethu yw arferion hylendid gwael, diffyg rheoli tymheredd a diffyg cadw cofnodion.

- Gofynnod Aelod a oedd datganiadau dwyieithog ar daflenni cludfwyd yn statudol ac i ba raddau yr oedd busnesau'n cydymffurfio. Dywedodd swyddogion nad oedd angen i'r taflenni fod yn ddwyieithog, ond dylent gynnwys gwybodaeth am sut i gyrchu gwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Yn ogystal, nid yw'n ofynnol roi sgorau hylendid bwyd ar eu gwefannau ychwaith.

- Aeth Aelodau ati i ganmol llwyddiant y gweithdai busnesau bwyd a gynhaliodd y GRhR yn Stadiwm y Mileniwm, a gofynnodd yr Aelodau a oedd cyfle i gynnal gweithdai llai, mwy lleol, yn y dyfodol. Croesawodd swyddogion yr awgrym.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

14 : GWASANAETHAU TACSI CAERDYDD

Daeth adroddiad i law'r Pwyllgor yn rhoi manylion am y ffordd y mae gwasanaethau tacsis yn gweithredu ar hyn o bryd yng Nghaerdydd, y rhwystrau y maent yn eu hwynebu a lle, o bosibl, y gellir cyflawni gwelliannau.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai'r Cyngor yw'r Awdurdod Trwyddedu ar gyfer cerbydau tacsi, gyrwyr tacsis a chwmnïau tacsis yng Nghaerdydd. Mae'n gyfrifoldeb yr Awdurdod Trwyddedu i osod yr amodau a chyflwyno trwyddedau er mwyn sicrhau bod y cerbydau'n ddiogel ac yn gyfforddus, a bod y gyrwyr yn bobl addas a phriodol, yn feddygol iach, yn meddu ar y wybodaeth gywir ac yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau perthnasol.

Mae dau fath o drwyddedau tacsis yn y Deyrnas Unedig; Trwydded Cerbyd Hacni a Thrwydded Tacsi Llogi Preifat. Mae 946 o Drwyddedau Cerbydau Hacni, 1,289 o Drwyddedau Cerbydau Llogi Preifat ac 80 o Drwyddedau Cwmnïau wedi cael eu cyflwyno yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Roedd y gwahaniaethau rhwng y ddau fath o gerbydau yn cael eu hegluro ymhellach yn yr adroddiad.

Cafwyd datblygiadau yn ddiweddar o fewn y busnes llogi tacsis yn sgil mathau newydd o fodelau busnes sy'n galluogi cwsmeriaid i ddefnyddio apiau ar-lein i archebu gwasanaethau tacsis, megis Uber. Mae Uber yn codi tâl ar yrwyr drwy eu hap ac ymdrinnir â'r holl daliadau yn electroneg. Pan fod cwsmer yn gwneud cais am dacsi drwy'r ap, mae'r manylion yn cael eu gosod ar lwyfan ac mae gyrwyr Uber yn cael cyfle i gynnig am y siwrne; yna mae'r cwsmer yn dewis naill ai derbyn neu wrthod un o'r cynigion.

Mae'r Cyngor wedi llunio cod yn egluro bod cwmnïau tacsis a gyrwyr tacsis yng Nghaerdydd yn gwbl ymrwymedig i gynnig gwasanaethau o'r safon uchaf i'r holl deithwyr. Mae 'Cod Gyrwyr Tacsis Caerdydd - Ein Haddewid i Deithwyr' yn nodi'r hyn y gall deithwyr ei ddisgwyl gan yrwyr a'r hyn y mae gyrwyr yn ei ddisgwyl gan deithwyr.

Clywodd y Pwyllgor fod y ddeddfwriaeth sydd ynghlwm wrth dacsis yn y broses o gael ei datblygu ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar opsiynau trefniadau yn y dyfodol a chynhaliwyd ymarfer ymgynghori yn

seiliedig ar adolygiad diweddar Comisiwn y Gyfraith o'r gyfraith sy'n llywodraethu cerbydau llogi preifat a thacsis. Gwnaeth yr adolygiad 84 o argymhellion, a chafodd nifer ohonynt eu hadlewyrchu yng nghynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio. Manylwyd ar nifer o'r cynigion yn yr adroddiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau hefyd fod adroddiad wedi dod i law'r Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd ar 6 Rhagfyr 2016 dan yr enw 'Cyfyngiad Trwyddedu Cerbydau Hacni'. Penderfynodd y Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd barhau â'r moratoriwm, a weithredwyd yn 2010 yn wreiddiol, ar gymeradwyo trwyddedau Cerbydau Hacni newydd gan ei fod yn hyderus nad oedd prinder tacsis yn y ddinas.

Gwahoddodd y Cadeirydd Will Lane, Rheolwr Gweithredol, Diogelu'r Cyhoedd, i roi cyflwyniad byr ar wasanaethau tacsis yn y ddinas. Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor i holi, gwneud sylwadau neu geisio eglurder ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd aelodau pa orfodaeth oedd ar waith i atal tacsis rhag defnyddio lonydd bysus fel safle tacsis answyddogol a faint o erlyniadau neu gamau gweithredu eraill oedd wedi cael eu cymryd. Dywedodd swyddogion y gellir cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig i yrwyr sy'n parcio mewn lôn fysus. Swyddogion yn yr Adran Priffyrdd sy'n gyfrifol am gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig. Nid oedd gan swyddogion unrhyw ffigurau mewn perthynas ag erlyniadau gan nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei darparu fel rheol gan y Tîm Trwyddedu. Dywedodd y swyddogion y byddent yn hapus i adrodd am unrhyw yrwyr tacsis penodol sy'n cael eu dal yn rhwystro lonydd bysus yn barhaus i'r Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd.

- Ystyriodd nifer o Aelodau'r Pwyllgor mai'r rheswm dros ddefnyddio'r lonydd fysus fel safleoedd tacsis answyddogol oedd diffyg safleoedd yng nghanol y ddinas. Mae tacsis yn aml yn ffurfio safleoedd answyddogol ar ôl 6.30pm. Mae gyrwyr hefyd yn achosi problemau drwy barcio ar gyffyrdd yn Greyfriars ac yn Stryd Wood. Mynegwyd pryderon ynghylch diffyg safleoedd tacsis swyddogol yng nghanol y ddinas a goblygiadau'r safleoedd answyddogol hyn ar ddiogelwch y cyhoedd.

- Gofynnodd Aelodau a oes gan y Cyngor awdurdod i ffurfio safleoedd tacsis newydd neu dros dro yn ystod y cyfnodau prysuraf, er enghraifft, ffurfio safle tacsis yn y Ganolfan Ddinesig ger Neuadd y Ddinas neu Faes yr Amgueddfa. Dywedodd swyddogion fod y mater yn cael ei archwilio ar hyn o bryd ac mae wedi cael ei godi yn flaenorol mewn cyfarfodydd y Fforwm Tacsis. Yr Awdurdod Priffyrdd fydd yn gyfrifol am unrhyw ddatrysiad, er y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymgynghoreion.

- Gan gyfeirio at nifer y cwynion sydd wedi dod i law, gofynnodd Aelodau a yw'n bosibl cael dadansoddiad o'r cwynion, er enghraifft, fesul y materion y mae'r cwynion yn ymwneud â nhw, nifer y cwynion a dderbyniwyd, a nifer y cwynion a gafodd eu hystyried o ganlyniad ym Mhwyllgor Diogelu'r Cyhoedd. Gofynnodd yr Aelodau hefyd a oedd y weithdrefn gwyno yn rhy gymhleth ac a fyddai'n well petai fodd ei symleiddio. Dywedodd swyddogion fod cronfa ddata newydd yn cael ei datblygu y bydd yn medru darparu'r fath o fanylion a awgrymwyd. Nododd y swyddogion y sylwadau a wnaed ynghylch y weithdrefn gwyno. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod angen i'r broses, mewn perthynas â chasglu tystiolaeth a

datganiadau, fod yn fwy cadarn gan fod penderfyniadau’r Pwyllgor yn aml yn cael eu herio yn y Llys Ynadon yn ystod apeliadau.

- Wrth ymateb i gwestiwn, eglurodd swyddogion nad oedd gwiriadau ar hap yn targedu gyrwyr na cherbydau penodol. Cynhelir gwiriadau ar hap a gwneir gwiriadau i sicrhau bod y cerbyd yn gweithredu yn unol ag amodau’r gwasanaeth, e.e. a yw cerdyn adnabod y gyrrwr yn cael ei arddangos? A yw’r golau sy’n dangos bod y cerbyd yn cael ei llogi wedi’i oleuo? Cynhelir ymarferion ‘siopwr cudd' hefyd ar adegau e.e. i wirio a yw cerbydau llogi preifat yn stopio i gludo cwsmeriaid sy'n eu fflagio yn y stryd (nid yw hyn yn cael ei ganiatáu).

- Ceisiodd Aelodau ragor o wybodaeth am sut y mae ffioedd trwyddedu tacsis yn cael eu pennu. Dywedodd swyddogion fod y ffioedd yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio offer Cymru gyfan. Gall yr awdurdod ond ailgodi’r gost o ddarparu’r gwasanaeth trwyddedu ac mae’r awdurdod wedi’i gyfyngu gan ddeddfwriaeth.

- Nododd Aelodau fod gan yrwyr sy’n cael eu trwyddedu gan awdurdod arall hawl yn gyfreithiol i fasnachu yng Nghaerdydd. Gofynnwyd i’r swyddogion gyflwyno eu sylwadau. Dywedodd y swyddogion fod ymarfer ymgynghori Llywodraeth Cymru wedi ceisio sylwadau ynghylch y mater hwn. Nid oes gan yr Awdurdod hwn unrhyw bwerau gorfodi dros yrwyr sy’n cael eu trwyddedu gan awdurdodau eraill. Ystyriodd swyddogion fod y mater yn cael ei gydnabod a bod y ddeddfwriaeth sy’n caniatáu i hyn ddigwydd yn hen a gellir dadlau nad yw’n addas at y diben. Gofynnir i yrwyr sy’n gweithio o fewn ardal y GRhG: Caerdydd, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr; i ddatgan ym mha ardal maent yn bwriadu gweithio ynddi.

- Gofynnodd Aelod a fyddai’n bosibl gostwng ffioedd trwyddedu ar gyfer gyrwyr sy'n gyrru cerbydau 'glanach'. Dywedodd y swyddogion nad yw’r ddeddfwriaeth yn caniatáu i’r awdurdod gynnig cymhellion o’r fath.

- Wrth gyfeirio at ddefnyddio'r mesurydd ar gyfer pob siwrne o fewn cyfyngiadau'r ddinas, gofynnod Aelod pa hyfforddiant a phrofion oedd y gyrwyr yn eu cael, a pha gamau y gellir eu cymryd i leihau nifer y cwynion. Dywedodd swyddogion fod y gyrwyr tacsis yn bobl broffesiynol ac mae’n ddyletswydd arnynt i wybod ble mae ffiniau’r ddinas. Mae rhaid i yrwyr lwyddo’r prawf ‘gwybodaeth’ – sy’n gofyn i yrwyr nodi’r llwybr mwyaf priodol rhwng mannau yn y ddinas.

- Nododd Aelodau fod arolwg yn dangos bod 57% o deithwyr yn teimlo'n ddiogel mewn tacsi. Ystyriodd Aelodau fod hyn yn ganlyniad gwael a gofynnwyd pa fesurau eraill y gellir eu cymryd i wella'r sefyllfa. Roedd swyddogion yn teimlo y gallai’r rhai oedd yn teimlo’n anniogel bryderu am eu diogelwch mewn mannau o gythrwfl posibl megis safleoedd tacsis. Mae’r cynllun Ardal Gwella Busnes yn chwilio i atgyfnerthu’r gwasanaeth swyddogion tacsis. Nid oes rhaid cael geirdaon gan ymgeiswyr ar gyfer trwyddedau gyrru tacsis, ond rhaid iddynt fod yn destun y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd estynedig.

- Gofynnodd Aelodau am eglurhad o ran gorchwyl swyddogion tacsis, er enghraifft, sut y maent yn ymdrin â gyrwyr yn gwrthod cludo teithwyr. Dywedwyd wrth swyddogion bod y swyddogion tacsis yn rhan o Dîm Rheoli Canol y Ddinas. Cynigiodd swyddogion gynnig rhagor o fanylion ynghylch cyfarwyddiadau swyddogion tacsis i’r Pwyllgor. Dywedwyd wrth Aelodau bod swyddogion o Reoli

a Thrwyddedu Canol y Ddinas yn cyfarfod yn aml i drafod rheoli economi’r nos.

- Disgrifiodd swyddogion yr amgylchiadau lle y byddai’n rhesymol i yrrwr tacsi wrthod cludo teithwyr. Dywedwyd wrth Aelodau hefyd y caniateir i yrwyr tacsis ofyn am flaendal neu randaliad ar ddechrau'r siwrne. Nid oes rhaid i deithwyr dalu ymlaen llaw na rhoi blaendal, ac ni all y gyrrwr wrthod y siwrne os yw teithwyr yn gwrthod talu ymlaen llaw.

- Wrth gyfeirio at benderfyniad diweddar Trafnidiaeth Llundain i wrthod rhoi trwydded gweithredwyr i Uber, gofynnodd Aelodau a oedd profiadau tebyg wedi digwydd yng Nghaerdydd. Dywedodd swyddogion nad oeddynt yn ymwybodol o unrhyw bryderon. Roedd oddeutu 40,000 o yrwyr Uber yn gweithredu yn Llundain, o gymharu â rhwng 250 a 300 yng Nghaerdydd. Roedd Uber yn Llundain ac Uber yng Nghaerdydd hefyd yn cael eu gweithredu gan gwmnïau gwahanol. Ystyriodd swyddogion fod rhai manteision i’r dull sy’n seiliedig ar ap ac roedd yn boblogaidd â chwsmeriaid.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau a’u harsylwadau.

15 : BRIFF I AELODAU: YR ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN DATBLYGU LLEOL CAERDYDD BLYNYDDOL CYNTAF

Nododd Swyddogion gynnwys yr 'Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Cyntaf' a gyflwynwyd i'r Cabinet mewn cyfarfod ddydd Iau 21 Medi 2017. Cytunodd Aelodau â’r farn ei bod hi’n rhy gynnar i lunio unrhyw gasgliadau hirdymor o’r adroddiad a dylid ei defnyddio fel dogfen sylfaenol gychwynnol i fesur cynnydd yn y dyfodol. Cytunodd y Pwyllgor ychwanegu ‘Ail Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd’ at restr o syniadau am raglenni gwaith posibl ar gyfer 2018/19; yr amcan byddai craffu'r ddogfen hon yn erbyn y cynnydd a gyflawnwyd mewn perthynas â chyflwyno Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd a'i gymharu â’r ffigurau sylfaenol a nodwyd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd Cyntaf’.

Yn ogystal â gohirio craffu mwy manwl ar Ail Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd hyd 2018/19, pwysleisiodd Aelodau bwysigrwydd gyrru'r newid moddol 50:50 yn yr hirdymor. Roeddynt yn teimlo bod Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd yn gyfrwng pwysig ar gyfer gyrru’r newid moddol 50:50 a bod craffu ar yr elfen drafnidiaeth o hyn yn bwysig iawn ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor yn awyddus iawn i graffu ar unrhyw gynlluniau o ran trafnidiaeth ar gyfer Caerdydd yn y dyfodol. Byddai hyn yn cynnwys y papur gwyrdd ar drafnidiaeth a fydd yn cael ei lunio erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2017/18.

Yn olaf, mae’r Pwyllgor yn ymwybodol bod y Cyngor yn diweddaru nifer o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol sy’n cysylltu’n uniongyrchol â datblygu Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd. Cadarnhaodd Aelodau y byddant yn adolygu’r casgliad o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol newydd ac yn craffu arnynt yn ystod 2017/18 os byddent yn teimlo bod hynny’n briodol.

PENDERFYNWYD - nodi’r adroddiad.

16 : PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL - RHAGLEN WAITH 2017/18

Cyflwynodd y Prif Swyddog Caffael y wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Waith y Pwyllgor. Gofynnwyd i aelodau ystyried eitemau posibl ar gyfer cylch mis Tachwedd a mis Rhagfyr y pwyllgor. Trafododd y Pwyllgor y rhaglen waith a chynhigiwyd nifer o ddewisiadau gan gynnwys y Strategaeth Feicio, Rhaglen Draeniau a Chynnal a Chadw yn y Gaeaf.

PENDERFYNWYD – y bydd y Prif Swyddog Caffael yn ysgrifennu at Aelodau’r Pwyllgor yn amlinellu Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer mis Tachwedd a mis Rhagfyr.

17 : DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF.

Rhoddwyd gwybod i aelodau y byddai cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu’r Amgylchedd yn cael ei gynnal ar 7 Tachwedd 2017.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pm